**ADRODDIAD I GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol - Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Llio Elenid Owen |
| **Swyddog perthnasol:** | Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Chwefror 2025 |

**1. Penderfyniad a Geisir**

**Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd-aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet dros Adrannau Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinelliad o'r hyn sydd wedi digwydd ar brosiectau Gwasanaethau Cyfreithiol a lle mae'r mesurau perfformiad arni.

3.2 Hoffwn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli ar 13 Ionawr .

3.3 Rwyf yn fodlon gyda'r prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Gwasanaeth, ynghyd â pherfformiad dydd i ddydd y Gwasanaeth ac yn cydnabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

**4. <u>GWASANAETH CYFREITHIOL</u>**

4.1 Mae perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy geisio adborth yr Adrannau sy'n derbyn gwasanaeth. Fe gloriannir barn yn erbyn graddfa 1-5 ar ffurf e-bost syml ac mae'r drefn fonitro wedi gwella. (5 = Bodlon Iawn, i 1 = Hollol Anfodlon). Mae hefyd yn bosibl i adrannau ychwanegu sylwad ynghyd â sgôr. Ers ddechrau'r flwyddyn ariannol, mae'r sgôr ar y cyfan yn uchel iawn gyda 100% yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth. Mae trosglwyddo i system electronig newydd wedi cael ardrawiad wrth i broblemau technegol effeithio ar nifer yr holiaduron. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi ei datrys bellach.

O ran yr ymateb sydd wedi ei dderbyn, mae’n galonogol fod nifer o sylwadau ychwanegol yn cael ei rhoi ar yr holiadur gan ymateb yn dweud:

“Hapus iawn gyda safon ac amseriad y gwasanaeth”

“Boddhaol Iawn - diolch yn fawr”

“gwaith cyflym gyda dim problemau i adrodd. Hapus iawn.”

| 2024 / 2025 | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr** | **Canran** | **Ebrill** | **Mai** | **Meh** | **Gorff** | **Awst** | **Medi** | **Hyd** | **Tach** | **Rhag** | **Ion** | **Chw** | **Maw** | |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Bodlon Iawn 5 | 100% | 6 | 1 | * | * | * | 6 | 4 | 7 | | | | | 28 |
| Bodlon 4 | 0% | | | | | | | | | | | | | |
| Gweddol Fodlon 3 | 0% | | | | | | | | | | | | | |
| Anfodlon 2 | | | | | | | | | | | | | | |
| Anfodlon Iawn 1 | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm holiaduron wedi ei dychwelyd | | 6 | 1 | | | | 6 | 4 | 7 | 0 | | | | |
| Nifer wedi ei yrru allan | | 7 | 2 | | | | 63 | 25 | 65 | 39 | | | | 201 |

### 4.2 <u>Byddwn yn parhau i ddatblygu y Tîm Cyfreithiol i greu gwytnwch o fewn y Tîm</u>

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Mae’r adran wedi bod yn rhan o Gynllun Yfory ers rhai blynyddoedd ac wedi elwa o gyflogi hyfforddai sydd wedyn wedi symud ymlaen i gymhwyso ac yn gweithio o fewn yr adran fel cyfreithiwr. Pleser yw nodi fod yr hyfforddai sydd newydd gymhwyso fis Awst yma hefyd yn derbyn swydd o fewn yr adran gan lenwi swydd wag. (Swydd oedd ynghynt yn cael ei llenwi gan locum)

Ymhellach, mae’r adran hefyd wedi manteisio ar y cynllun prentisiaeth ac wedi cyflogi prentis paragyfreithol cyntaf yr adran. Mae hyn y gweithio’n dda ac mae’r prentis wedi dechrau ar ei chymhwyster Paragyfreithiwr .

Mae un swydd wag ar hyn o bryd sydd wedi ei benodol i wneud gwaith cynllunio a chyflogaeth. Mae trafodaethau wedi ei cynnal ynglŷn a sut i lenwi’r swydd yma ac ar hyn o bryd y bwriad yw i fynd i hysbysebu am swydd cyflogaeth a ymgyfreithio cyffredinol gan ofalu fod y gwaith cynllunio yn cael ei wneud gan aelod o staff mewnol gyda peth newid yn ei swydd ddisgrifiad. Mae cyfreithiwr locum lleol wedi ei benodi ar gyfer gwneud gwaith Pwyllgor Cynllunio yn y tymor byr tra mae’n newidiadau ar droed. Bydd y gwaith cyflogaeth yn cael ei wneud gan locwm.Yn ogystal mae nifer o faterion fwy cymhleth yr Awdurdod wedi ei allanoli i gyfreithwyr allanol.

**Y camau nesaf**
Mae swydd cyfreithiwr cyflogaeth ac ymgyfreithio yn cael ei hysbysebu. Mae'r gwaith yn gyson ac os nad yw yn cael ei wneud yn gywir neu yn amserol yn elfen o risg sylweddol i'r Awdurdod. Bydd costau locwm a / neu cyfreithwyr allanol yn llawer uwch na recriwtio swydd parhaol. Bwriedir sicrhau cefnogaeth i'r aelodau o'r tim sydd yn datblygu ei sgiliau boed drwy brofiad gwaith neu drwy weithio ar gymhwyster.

**Risgiau**
Y risg fwyaf yw diffyg penodi ond bydd angen ymchwilio i'r farchnad swyddi a chyflogi i asesu os oes risg lle nad yw penodiad yn bosibl. Yn eilradd mae risg o gostau locwm yn dychwelyd wedi cyfnod eithaf sefydlog. Bydd rhaid gwylio hyn yn ofalus.

**Amserlen**
Amserlen prentis yn 2 flynedd. Amserlen agored ar gyfer datblygu gwytnach o fewn y tim. Amserlen hysbysebu gyda chaniatâd a penodi os yn llwyddiannus – hyd at 6 mis.

**4.3 <u>Byddwn yn edrych i gwblhau gwaith post Lexcel ar gyfer cynnal systemau priodoldeb SRA</u>**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Mae'r adran bellach wedi ymgorffori sustem rheoli achosion newydd ac bellach mewn sefyllfa i edrych yn fwy ehangach ar gyfarch nodweddion o'r cymhwyster Lexcel a fyddai o fudd ar gyfer yr uned . Rydym yn edrych yn benodol ar drefniadau o gynnal safonau cyffelyb drwy adborth a sustemau adolygiad "peer review". Nid oes bwriad i geisio am y cymhwyster Lexcel yn ei gyfanrwydd ( mae ddiffyg perthnasedd i ran helaeth o waith cyfreithiwr mewnol ("in house") ac ei gost) ond yn hytrach i ddefnyddio rhai or egwyddorion i ddatblygu y ffordd o weithio ac i gryfhau sustemau.

**Y camau nesaf**
Bwriedir roi'r prosesau ar waith yn y Flwyddyn Newydd.

**Risgiau**
Dim i'w amlygu

**Amserlen**
Y gwaith i fod mewn grym o fewn y misoedd nesaf ac ar waith o fewn yr adran.

**5. <u>PRIODOLDEB</u>**

**CYNLLUNIAU ADRAN**

**5.1 <u>Byddwn yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau'r Cyngor o safbwynt sicrhau</u>**

**priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddiaeth.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Mae'r gwaith yma yn barhaol ond yn benodol bwriedwyd cynnal cyfres o seminarau Penderfyniadau Da" o Hydref ymlaen. Amcan y cyrsiau yw esbonio hanfodion penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus ynghyd a'r fframwaith gyfansoddiadol a rheoleiddio sydd ynglŷn a'r maes yma. Mae peilot wedi ei gynnal ac ymateb yn gadarnhaol.

**Y camau nesaf**
Sefydlu rhaglen o seminarau

**Risgiau**
Mae'r gwaith yma yn rhan o drefniadau llywodraethu y Cyngor sydd yn derbyn trosolwg y Grŵp Llywodraethu.

**Amserlen**
Mae'r gwaith yn gyson . Oherwydd gofynion eraill mae'r bwriad i gynnal y seminarau yma wedi llithro. Fodd bynnag rydym yn hyderus y bydd y trefniadau yn gallu cael eu sefydlu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**5.2 Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau, ynghyd â swyddogion perthnasol, i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymysg cynghorwyr.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Byddwn yn mynd ati yn ystod ail a thrydydd chwarter y flwyddyn i roi ffocws ar waith cyd weithio a chefnogi gyda'r dyletswydd newydd ynglŷn ag ymddygiad aelodau gyda arweinyddion grwpiau. Yn ogystal gan adlewyrchu gofyn a amlygwyd yn sgil sesiynau anwytho bwriedir cynnal cyrsiau Cod Ymddygiad i aelodau'r Cyngor yn ystod chwarter olaf 23/24 ac ynghynt os yw adnoddau yn caniatáu.

**Y camau nesaf**
Cynhaliwyd cyfarfod rhwng aelodau y Pwyllgor Safonau a'r Arweinyddion Grwpiau i hyrwyddo a chefnogi gweithredu y dyletswyddau newydd. O ganlyniad cafwyd cytundeb ar y meini prawf arfaethedig a threfn ar gyfer cyfarfodydd cyson rhwng y Swyddog Monitro a'r Arweinyddion i gefnogi y gwaith.

**Risgiau**
Risgiau o ran enw da y Cyngor os na fydd y dyletswydd yn cael ei gyfarch.

**Amserlen**
Oherwydd y newidiadau yn arweinyddiaeth y Cyngor gorfu oedi y cyfarfod gyda'r Pwyllgor Safonau I'w gyfarfod yn Chwefror . Fodd bynnag bwriedir trefnu cyfarfod briffio gyda Cadeirydd y Pwyllgor Safonau unwaith fydd Arweinydd mewn lle .

**5.3 Byddwn yn adolygu a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer cefnogi'r gofynion ar y Gwasanaeth sy'n deillio o waith rhanbarthol**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Mae datrys ein sefyllfa recriwtio yn golygu fod modd bellach symud ymlaen i gynllunio sut y gellir cyfarch y gofynion rhanbarthol. Wrth i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd symud i fod yn weithredol mae cynnydd ar draws y bwrdd mewn gofyn am adnoddau. Mae hyn yn parhau yn her ond yn fater sydd yn cael ei gydnabod o fewn y prosiect . Mae'r cyfnod cyfredol yn benodol heriol oherwydd fod nifer o elfennau o waith y CBC yn dod yn weithredol yn ystod y c chwarter cyfredol . Yn ogystal mae llywodraethau y DU a Chymru ar cyd wedi gosod cyfrifoldeb corff atebol rhanbarthol am y Parth Buddsoddi ( Investment Zone) Siroedd Ffllint a Wrecsam) ar y CBC

**Y camau nesaf**

Gweithio fel rhan o dim rheoli y CBC i adnabod adnoddau angenrheidiol i gynnal yr awdurdod newydd. Gweithio i hawlio grant gan Llywodraeth Cymru i gyfrannu at yr adnodd. Mae adroddiad Cyllideb y CBC sydd gerbron ar y 17 fed o Ionawr yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y gefnogaeth gorfforaethol y rhagwelir sydd ei angen ar gyfer 25/26. Mae adnoddau cyfreithiol allanol wedi eu comisiynu i gefnogi y gwaith ar sefydlu y parth buddsoddi Fflint/Wrecsam .

**Risgiau**

Methu a sicrhau adnoddau digonol a chreu y capasiti priodol i gynnal y gwaith o sefydlu y Cyd Bwyllgor. Cynnydd mewn gwaith ar draws o ystod o elfennau yn creu ton o waith cyfochrog ar hyn o bryd. Gofynion a pwysa ychwanegol yn deillio o adolygiadau allanol.

**Amserlen**

Roedd yn fwriad fod swyddogaethau y Bwrdd uchelgais yn trosglwyddo i'r Cyd Bwyllgor corfforedig erbyn 1 Tachwedd 2024. Ond , mae'r amserlen yma wedi llithro i Ebrill 2025. Mae adroddiad gerbron y CBC ar 17 Ionawr yn agor y drws i sefydlu CLG ar draws y gefnogaeth gorfforaethol gan gynnwys cyfreithiol a democratiaeth.

5.4 **<u>Byddwn yn cwblhau y prosiect ar adolygu trefniadau pleidleisio'r Cyngor erbyn 15 Tachwedd 2024.</u>**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**

Adroddwyd i'r Cyngor Llawn yn Rhagfyr 2023 ble penderfynwyd symud i broses ymgynghori . Cynhaliwyd proses ymgynghori yn unol a'r Deddfwriaeth a chynhaliwyd Cyngor Arbennig ar y 25ain o Hydref 2024 i benderfynu ar y gyfundrefn.

**Y camau nesaf**

Ni lwyddodd y cynnig i gyrraedd y rhiniog statudol sef o 'leiaf 46 pleidlais o blaid symud i PSD. O ganlyniad ni ellir penderfynu newid y gyfundrefn ar gyfer etholiadau 2027.

**Risgiau**

Gyda penderfyniad 24 Hydref 2024 nid oes risigau penodol o safbwynt penderfyniadau na proses i'w cyfarch.

**Amserlen**

Nid oes camau gweithredu pellach yn dilyn penderfyniad

.

5.5 **Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r Cyfansoddiad erbyn 31 Rhagfyr 2024, er sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn addas i bwrpas.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Mae dwy elfen i hyn , diweddariadau sydd yn deillio o newidiadau statudol a addasiadau sydd yn cyfarch anghenion y Cyngor presennol a gwelliannau posib. Bydd y daith i benderfyniad yn amrywio yn ôl y testun ond bwriedir adroddi i'r Cyngor Llawn ym Medi. Fodd bynnag bydd angen oedi ar yr elfen Pwyllgorau Craffu er cael cyfle i adolygu ymateb i adroddiad Archwilio Cymru yn y maes yma. Bydd angen gwaith ac ymgynghori pellach ar adolygiad o'r adran Staffio ynghyd a diweddariadau I'r elfennau Cynllun Dirprwyo . Er fod y broses yn parhau mae trafodaethau gyda rhai Adrannau wedi amlygu nad yw cyfathrebu anghenion wedi gweithio yn gyson wrth ymdrin a newidiadau.

**Y camau nesaf**
Cwblhau adolygiadau cynlluniau dirprwyo a threfniadau Rheolau Sefydlog Staffio ynghyd ac addasiadau cyfansoddiadol eraill sydd yn deillio.

**Risgiau**
Mae Cyfansoddiad cyfredol yn allweddol i gynnal busnes y Cyngor a gall diffygion arwain at ansicrwydd ac oedi mewn penderfyniadau allweddol ynghyd a risg o her. Nid yw'r adolygiad wedi adnabod risgiau penodol ar hyn o bryd sydd angen eu blaenoriaethu

**Amserlen**
Rhagwelir y bydd cwblhau y gwaith yma yn llithro i Gyngor Mis Mawrth/ Mai oherwydd pwysau materion eraill

5.6 **Byddwn yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau i ddatblygu trefniadau i weithredu ei gyfrifoldebau tuag at Gynghorau Tref a Chymuned drwy gynnig sesiynau hyfforddiant.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Er fod cwrs peilot wedi bod ar gael ac yn barod mae ystod o faterion wedi golygu nad oedd yn bosib symud ymlaen a'r hyfforddiant yma. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cynnal arolwg o'r cyd berthynas gyda Cynghorau Tref a Chymuned ac adnabod fod angen symud i gryfhau y bartneriaeth yma. Er ddim yn adlewyrchiad cyffredinol o bob cyngor mae hefyd yn ystadegol amlwg fod trwch helaeth cwynion at yr Ombwdsman ynglŷn a Cod Ymddygiad yn ddeillio o' sector yma .

**Y camau nesaf**
Cynnig rhaglen o gyrsiau rhithiol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

**Risgiau**
Mae methu a mynd I'r afael a'r materion yma yn arbennig felly lle mae cynghorau penodol a phroblemau yn cynyddu gwaith a galwadau ar y Tim Priodoldeb.

**Amserlen**
Byddwn yn cyflwyno dwy sesiwn hyfforddiant rhithiol cyn diwedd y flwyddyn 24/25.

5.7 **Byddwn yn cwblhau'r gwaith o hyfforddi aelodau Cyngor Gwynedd mewn materion Cod Ymddygiad drwy gynnig sesiynau hyfforddiant manwl ar y Cod i aelodau sydd heb fynychu.**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Er fod cyrsiau wedi eu cynnal eleni , fod cais i arweinyddion grwpiau a neges eglur yn yr adroddiad blynyddol mae dal bwlch yn y nifer aelodau sydd wedi mynychu. Boed 6 neu 20 aelod mewn cwrs mae'r ymrwymiad amser swyddogion yn parhau yr un peth. Mae'r aelodaeth i gyd wedi derbyn cwrs byr ar ddechrau tymor ond dim ond gwybodaeth digonol ar gyfer aelodau newydd sydd yma ynghyn a hanfodion y Cod a sut i beidio tramgwyddo yn nechrau cyfnod,

**Y camau nesaf**
Mae cwrs pellach fin nos wedi ei gynal ar gyfer Rhagfyr 2024 fydd yn cael ei recordio ac ar gael i aelodau.

**Risgiau**
Mae risgiau i aelodau ac enw da yr awdurdod os yw aelodau yn cael eu canfod yn euog o dorri y Cod. Mae hyn yn rhan o'r her sydd ynglŷn a chyrsiau craidd aelodau.

**Amserlen**
Cynhaliwyd cwrs cyflawn yn ystod Rhagfyr ac mae wedi ei recordio ar gyfer mynediad i aelodau sydd yn parhau heb fynychu yr hyfforddiant llawn.

## 6. ETHOLIADAU A CHOFRESTRU ETHOLIADOL

### CYNLLUNIAU ADRAN

**6.1 Byddwn yn gweithio i gefnogi'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, gan gyfarch yn benodol:**

-

- **Cwblhau'r gwaith o weithredu newidiadau Deddf Etholiadau 2022 yn ymwneud â phleidleisiau post.**
- **Paratoi ar gyfer newidiadau Etholiadol Senedd Cymru**
- **Cymryd rhan yng nghynllun peilot cofrestru 'awtomatig' Llywodraeth Cymru**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Rydym wedi cynnal Etholiad Comisiynydd yr Heddlu ac yna Etholiad Seneddol y DU a alwyd ar fyr-rybudd. Roedd hyn yn golygu bod rhaid gweithredu'r trefniadau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022, a'r trefniadau traws-ffiniol a sefydlwyd gyda chynghorau Conwy a Dinbych oherwydd newid ffiniau, yn ymarferol am y tro cyntaf. Cynhaliwyd y Cyfri ym Mhorthmadog am y tro cyntaf hefyd.

**Y camau nesaf**
Gweithredu y rhaglen waith.

**Risgiau**
Methu a chyflawni y gofynion ar gyfer etholiadau ond mae'r asesiad risg yn dangos fod statws dderbyniol i gyflawni y gofynion yma.

**Amserlen**
Yn unol a'r amserlen yn y rhaglen waith.

**6.2 <u>Byddwn yn cynnal proses Arolwg Cymunedol Statudol gan gasglu data, cynnal ymgysylltiadau cychwynnol ac adrodd i'r Cygnor ar ganlyniadau'r broses, gydag argymhellion</u>**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Yn dilyn gwaith cychwynnol o gasglu a chloriannu gwybodaeth ac ymgysylltu cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn a gymeradwyodd y bwriad a'r cylch gorchwyl i gynnal adolygiad cymunedol ac adolygiad o drefniadau etholiadol yn gyfochrog.

**Y camau nesaf**
Mae'r cyfnod ymgynghori cyntaf wedi dod i ben. Rydym yn cloriannu'r ymatebion er mwyn datblygu cynigion drafft.

**Risgiau**
Methu a chynnal adolygiad yn unol a'r gofyn statudol ond mae'r asesiad risg yn dangos fod statws dderbyniol i gyflawni y gofynion yma.. Mae llithriad fel canlyniad i'r Etholiad Cyffredinol ym mi Gorffennaf eleni ond rhagwelir na fydd hyn yn effeithio ar ein gallu i gwblhau'r broses yn amserol.

**Amserlen**
Cyflwynir adroddiad gyda chynigion drafft i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2025 cyn ymgynghori ar y cynigion hynny. Y bwriad yw cyflwyno'r argymhellion terfynol i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn yng Ngorffennaf 2025.

**6.3 <u>Byddwn yn cynnal Adolygiad Mannau Pleidleisio.</u>**

**Beth sydd wedi ei gyflawni?**
Mae adolygu mannau pleidleisio yn broses barhaus ac mae pob etholiad yn rhoi'r cyfle i ni asesu addasrwydd ein gorsafoedd ac ystyried os oes lleoliadau mwy addas ar gael. Serch hynny, mae'n ofynnol cynnal adolygiad statudol bob pum mlynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf rhwng Mis Medi a Tachwedd 2024 a chyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2024, a gymeradwyodd canlyniad yr adolygiad.

**6.4 Cynllun Peilot Cofrestru Awtomatig Llywodraeth Cymru**

**Beth sydd wedi i gyflawni ?**
Rydym wedi gwirfoddoli i fod yn un o'r awdurdodau fydd yn cymryd rhan yn y cynllun. Yn dilyn oedi oherwydd yr etholiadau mae trafodaethau wedi ail-ddechrau rhwng yr awdurdodau, Llywodraeth Cymru a darparwyr y systemau etholiadol electronig er mwyn creu y cynllun peilot.

**Risgiau**
Tra bod yr elfen sylfaenol 'r prosiect (paru data a chofrestru) yn ymddangos yn gyraeddadwy ar hyn o bryd, byddai'r elfennau ymgysylltu a datblygu ffynonellau data yn gofyn am adnodd staff ychwanegol. Mae cyllid ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru ond nid fyddwn yn bwrw ymlaen gyda'r cynllun llawn heb sicrwydd o adnodd addas. Mae'r cynllun hefyd yn ddibynnol ar newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol.

**Amserlen**

Bwriad Llywodraeth Cymru yw rhedeg y peilot rhwng Ionawr a Rhagfyr 2025.

**7. CEFNOGAETH CRWNER**

**7.1 Byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau i gefnogi a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Crwner**

Be yda ni wedi bod yn ei wneud, esiamplau :

- Cryfhau'r gefnogaeth weinyddol drwy gynyddu'r materion y gall Tim Gweinyddol ymdrin a nhw
- Newid y drefn o dalu rheithwyr a thystion mewn cwestau
- Paratoi asesiad risg ar gyfer cwestau a gwaith y Crwner yn gyffredinol
- Sefydlu proses i drosglwyddo dogfennau i Nghanolfan Gofnodion y Cyngor ac yna i'r Archifdy.

**8. Sefyllfa Risgiau/Gwasanaeth**

- Cyfrannu at waith rhanbarthol gan gydnabod fod y sefyllfa risg yma yn ddarostyngedig i adolygiad pellach

**8. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**8.1 Prif Swyddog Cyllid**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

**8.2 Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad